

Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

ADRODDIAD BLYNYDDOL AR BERFFORMIAD CYNLLUNIO 2015-16

RHAGAIR

Pleser o'r mwyaf gennyf yw cyflwyno'r ail Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP).

Cafodd adroddiadau blynyddol ar berfformiad cynllunio eu cyflwyno fel rhan o gynigion Llywodraeth Cymru, a ymgorfforwyd yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015, i foderneiddio'r system gynllunio a gwella'r modd y caiff gwasanaethau cynllunio eu darparu yn lleol. Gobeithio'n wir bod y ddogfen hon yn cyflwyno darlun clir o'r modd yr ydym yn perfformio ein swyddogaeth gynllunio.

Mae Parciau Cenedlaethol yn lleoedd arbennig, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod y dirwedd werthfawr hon yn cael ei gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn ymwybodol ein bod yn ymdrechu drwy ein swyddogaeth gynllunio i gynnal cydbwysedd iach fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mater o falchder i ni yw mai ni yw'r awdurdod cynllunio cyntaf yng Nghymru i gael Cynllun Datblygu Lleol wedi'i fabwysiadu. Mae polisiâu'r Cynllun Datblygu a gweithredu'r polisiâu hynny wedi bod yn fuddiol, ac rydym wedi cychwyn ar y broses o adolygu'r cynllun lleol hwn.

Mae'r Parciau Cenedlaethol wedi bod ac yn parhau i fod o dan drefniadau craffu sylweddol, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud 3 adroddiad arnom yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Rydym yn parhau i lwyddo i gyflawni ar lefel uwch ac wedi perfformio ein swyddogaethau cynllunio yn gyson yn uwch na chyfartaledd Cymru ar y cyfan. Mae'r ail adroddiad hwn yn dangos ein bod yn dal i lwyddo i gyflawni hyn.

Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - y Cynghorydd Mike James

CYD-DESTUN

- 1. Mae'r adran hon yn nodi'r cyd-destun cynllunio y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn gweithredu o'i fewn.**
 - 1.1. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gyfrifol am gyflawni'r gwasanaethau cynllunio yn ardal Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae ardal y Parc Cenedlaethol yn rhedeg mewn rhuban o gwmpas Arfordir Sir Benfro ac mae'n cynnwys rhannau isaf afonydd Cleddau, mae hefyd yn cynnwys mynyddoedd y Preseli a chwm Gwaun. Dyma'r unig Barc Cenedlaethol yn y DU a ddynodwyd yn bennaf am ei arfordir, ac mae ynysoedd Sir Benfro yn cael eu cynnwys yn ardal y Parc.
 - 1.2. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cwmpasu ardal o 614km² ac yn un o'r Parciau Cenedlaethol yn y DU sydd â phoblogaeth mwy dwys, gyda bron i 22,000 o bobl yn byw mewn 49 o ardaloedd

Cynghorau Tref a Chymuned a Dinas (ffigurau cyfrifiad 2010). Mae'r rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol yn eiddo preifat; fodd bynnag, mae rhyw chwarter o'r ardal yn dir cyhoeddus neu mewn perchnogaeth elusennol.

1.3. Cafodd Parc Cenedlaethol ei hun ei ddynodi ym 1952, gyda'r dibenion canlynol:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol; a
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

2. Y cefndir cynllunio, gan gynnwys cynlluniau datblygu a fabwysiadwyd neu a adawyd ar eu hanner.

2.1. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei fabwysiadu yn 2010 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2010 a 2021. Roedd y cynllun hwn yn disodli'r Cydgyllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro (2000-2016). Mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n ategu ac yn rhoi arweiniad i'r gwaith o weithredu'r polisiau sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI.

3. Sut mae'n cyd-fynd â'r strategaeth gymunedol a/neu weithgarwch strategol a gweithredol ehangach yr Awdurdod.

3.1. Mae gan yr Awdurdod Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (2015-2019) sy'n nodi dull cydlynol o reoli dibenion y Parc Cenedlaethol. Mae'r Cynllun yn nodi llwybr clir rhwng dibenion y Parc Cenedlaethol a'r polisiau rheoli lle mae'r APC yn egluro beth yw'r Parc Cenedlaethol, sut mae'r Parc yn cael ei reoli, a pham y bwriedir ei reoli mewn un ffordd yn hytrach na ffordd arall. Cynllun ydyw ar gyfer sefydliadau partner, y trigolion, archwilwyr ac unrhyw un sydd â budd mwy manwl yn y Parc Cenedlaethol a rôl yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y gwaith o reoli'r Parc.

4. Dylanwadau mawr presennol a blaenorol ar y defnydd o'r tir (e.e. diwydiannol trwm, amaethyddol, ynni, trafndiaeth).

4.1. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn enwog am ei dirweddau hardd eithriadol, a'r dylanwadau ar y tirweddau hyn, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, fydd yr arferion amaethyddol sydd wedi naddu'r dirwedd, a'r arferion fydd yn dylanwadu'n drwm ar ansawdd y dirwedd yn y dyfodol. Bydd y diwydiannau puro o amgylch yr Aber hefyd yn effeithio ar hyn. Y prif ddefnyddwyr eraill o'r tir yw'r meysydd amddiffyn a thwristiaeth.

5. Lleoliad hanesyddol/tirwedd yr ardal, gan gynnwys AHNEau, ardaloedd cadwraeth ac ati

5.1 Ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro mae 285 o Henebion Rhestredig, a dros 7,500 o safleoedd yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Mae dros 1,200 o adeiladau rhestredig a 13 o Ardaloedd Cadwraeth dynodedig yn y Parc. Mae naw ardal Tirwedd Hanesyddol yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol, ac mae 15 o Barciau a Gerddi Hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol.

6. Safleoedd trefol neu wledig ac aneddiadau mawr

- 6.1. Ardal wledig yn bennaf yw'r Parc Cenedlaethol fel y tystir gan y ffaith i'r ardal gael ei dynodi yn Barc Cenedlaethol, gyda phocedi llai o ddatblygiadau a Chanolfannau Lleol mewn lleoliadau ar y glannau. Amcangyfrifir bod traean o'r holl aelwydydd yn y Parc Cenedlaethol yn byw ar wasgar yng nghefn gwlad mewn pentrefi llai, pentrefannau, anheddau a ffermydd gwasgaredig.
- 6.2. Mae'r CDLI yn nodi Trefi a Phentrefi fel Canolfannau Haen 2 neu 3 ar y sail bod Hafan Sir Benfro yn cynnwys canolfannau strategol a elwir yn Ganolfannau Haen 1 - mae'r rhain yn cynnwys canolfannau mwy megis Hwlfordd, Aberdaugleddau/Neyland, Penfro/Doc Penfro a Thref Caerfyrddin.
- 6.3. Ymhlith yr ardaloedd trefol allweddol yn y Parc Cenedlaethol mae Dinbych-y-pysgod (Canolfan Haen 2) a Threfdraeth, Saundersfoot a Thyddewi (Canolfannau Haen 3). Mae 19 o Ganolfannau Gwledig (Haen 4) ar hyd a lled y Parc Cenedlaethol gan gynnwys Amroth, Angle, Boshoston, Aberllydan, Dale, Dinas, Felindre Farchog, Herbrandston, Jameston, Lawrenni, Little Haven, Maenorbÿr, Gorsaf Maenorbÿr, Marloes, Niwgwyl, Pont-faen, Solfach, St Ishmael a Threfin. Mae 10 arall o Ganolfannau Gwledig a leolir yn rhannol yn y Parc Cenedlaethol.
- 6.4. Cyfanswm nifer yr aelwydydd a nodir yng Nghyfrifiad 2011 yn y Parc Cenedlaethol yw 13,700, ac mae llety hunan-ddarpar yn cyfrif am ychydig dros 12% o'r stoc tai yn gyffredinol.

7. Newidiadau yn y boblogaeth a'r dylanwad ar y Cynllun Datblygu Lleol/diwygiadau i ddod.

- 7.1. Roedd rhagamcan Llywodraeth Cymru yn 2008 o nifer yr aelwydydd yn y Parc Cenedlaethol hwn yn dangos cynnydd o 10,490 i 11,516 (ychydig dros 1000 am y cyfnod 2011 i 2031).
- 7.2. Mae'r ffigyrau poblogaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos gostyngiad yn y boblogaeth.
- 7.3. Ar gyfer yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd y rhagamcanion o ffigurau'r boblogaeth yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ystyried nifer y tai fydd eu hangen dros oes y Cynllun newydd (2031).

8. Y GWASANAETH CYNLLUNIO

- 8.1. Mae'r Awdurdod wedi'i drefnu yn dri maes gwasanaeth allweddol sy'n cynnwys Cyfarwyddyd y Parc/Cynllunio, Cyflawni/Darganfod, a Gwasanaethau Cymorth. Fel y nodir yn Siart 1 isod mae'r swyddogaeth gynllunio yn dod o fewn cylch gwaith y Cyfarwyddwr Cynllunio.
- 8.2. Mae swyddogaeth Polisiâu Cynllunio y Parc Cenedlaethol yn dod dan gyfarwyddyd Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc. Hefyd y pennaeth hwn sy'n gyfrifol am Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, Bioamrywiaeth, Archaeoleg, materion amgylcheddol a gwybodaeth ystadegol a data.

- 8.3. Mae'r swyddogaethau Rheoli Datblygu a Gorfodi o dan gyfarwyddyd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ac mae'r arweinydd tîm hefyd yn gyfrifol am gadwraeth adeiladau hanesyddol, ecoleg cynllunio, coed a materion tirwedd.
- 8.4. Alldro rheoli datblygu yn 2014/15 oedd £507,000, a'r gyllideb ar gyfer 2016/17 yw £518,012 sef gostyngiad o 32% dros 4 blynedd, a gostyngiad mewn lefelau staffio o 1 swydd cyfwerth ag amser llawn - sy'n cynnwys yn bennaf rhai deiliaid swyddi yn gweithio llai o oriau yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gweler isod. (Y gostyngiad o 32% yw'r gostyngiad yn ffigur y gyllideb o £687,000 yn 2013/14 a £518,012 yn 2016/17). Mae'r swyddogaethau polisïau cynllunio a swyddogaethau eraill yr Adran Cyfarwyddyd wedi parhau ar rhyw £250,000 bob blwyddyn wrth i ni ddechrau yn awr ar y gwaith o adolygu'r CDLI.
- 8.5. Rheolir y swyddogaeth Cynllunio gan nifer llai o staff cyfwerth ag amser llawn, ac mae arbedion wedi'u gwneud wrth i gyfleoedd godi drwy fod rhai staff yn gweithio llai o oriau, ac ail-werthuso graddfeydd rhai swyddi. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Ailasesu ac ailraddio (i lawr) swyddi ym maes Rheoli Datblygu - Pennaeth Rheoli Datblygu bellach yn swydd Arweinydd Tîm
- Defnyddio ymgynghorwyr i fynd i'r afael â'r cyfnodau brig yn y llwythi gwaith, gan gynnwys y cyfnod pan oedd swydd Pennaeth Rheoli Datblygu yn wag am 11 mis
- Mae cytundebau lefel gwasanaeth i gynnwys cynllunio mwynau gyda Chyngor Sir Caerfyrddin (CSC), ac un sy'n cynnwys gwaith ecoleg cynllunio gyda Chyngor Sir Penfro (CSP).

Gan edrych i'r dyfodol mae APCAP yn awyddus i gynllunio ar gyfer capasiti a gwybodaeth i barhau i ddarparu swyddogaeth gynllunio da. I'r perwyl hwn, mae'n parhau i roi blaenoriaeth uchel ar hyfforddi staff ar bob lefel yn yr adran gynllunio.

- Mae APCAP wedi ymrwymo i sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi ar gyfer eu rolau, ac felly mae pob swyddog cynllunio yn aelodau o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI), a'r Awdurdod sy'n talu'r tanysgrifiadau i'r corff proffesiynol hwn. Mae gorfodi yn yr Awdurdod yn cael proffil uchel ac felly mae pob swyddog gorfodi yn aelodau o Gymdeithas Genedlaethol Gorfodi Cynllunio (NAPE) a'r Awdurdod sy'n talu'r tanysgrifiadau i'r corff proffesiynol hwn.
- Mae'r Awdurdod yn disgwyl i'w cynllunwyr a swyddogion gorfodi gwblhau a chydymffurfio â gofynion datblygiad proffesiynol parhaus RTPI/ NAPE, ac asesir y gofynion hyn drwy'r drefn o arfarnu perfformiad blynyddol y staff.
- Mae rhaglen hyfforddi lleol a pherthnasol ar faterion cynllunio yn cael ei darparu yn fewnol, a gwahoddir cynllunwyr (ac eraill gan gynnwys Aelodau) i fynychu'r sesiynau hyn. Nodir amserlen 2015/16 isod - sy'n dangos yr amrywiaeth enfawr o bynciau a ystyrir yn briodol ar gyfer cynllunwyr, yn enwedig o ystyried statws y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys rhai o raglenni hyfforddiant eraill y Parc ar gyfer rheolwyr ac ati sy'n effeithio ar y modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni'r gwasanaeth cynllunio. Mae'r Awdurdod wedi cynnwys lechyd Meddwl fel mater i'w ystyried ymhellach ar gyfer datblygu staff yn ystod 2015/6.

dyddiad	Hyfforddiant
30.04.15	Adran 106 – Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL)
05.04.15	Siaradwr ar Iechyd Meddwl mewn cyfarfod tîm
07.05.15	Freshwater West – polisi ar lawr gwlad
13.05.15	Sesiwn ar ymwybyddiaeth ofalgar
20.05.15	Cynhadledd Cynllunio Cymru - Cynllunio ar gyfer byd sy'n newid
02.06.15	Cyflwyniad ar Symud Mwy
19.06.15	Ymweliad safle Llammas gyda chynllunwyr Rheoli Datblygu
20.06.15	Canolfan Ystagbwll - diwrnod cadwraeth
8–9 .07.15	'Drawing Places' ar gyfer prif swyddogion
22.07.15	Cerdyn Adnabod Pili Pala
27.07.15	Cynhadledd 'Drawing Places' i gynllunwyr Rheoli Datblygu
17.09.15	Hyfforddiant Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i Aelodau/Cynllunwyr
10.09.15	Diwrnod Hyfforddiant ar Effaith ar Gydraddoldeb
07.10.15	Gweithdy ar bolisi hygyrchedd APCAP
20.10.15	Inswleiddio adeiladau hŷn
22.10.15	Hyfforddiant ar iechyd meddwl
26-7. 10.15	Cynhadledd Europarc – Regensburg
06.11.15	Anerchiad ar waith Ombwdsmon
27.1.16	Gweithdy CDLI ar Fannau Agored Cyhoeddus manwerthu, cyflogaeth
24.2.16	Pecynnau meddalwedd cynllunio Bannau Brycheiniog gyda'r tîm Rheoli Datblygu
3.3.16	Hyfforddiant ar beryglon llifogydd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru
9.3.16	Gweithdy CDLI ar y farchnad dai leol, newid yn yr hinsawdd
20.4.16	Hyfforddiant a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon - datblygu a ganiateir o ran priffyrdd
9.5.16	Dysgu gweithredol ar reoli amser
12-3.5.16	Cynhadledd Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW)
9.6.16	Cynhadledd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI), Caerdydd
16.6.16	Dysgu gweithredol ar reoli amser
30.6.16	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

- Cynhelir llawer o'r rhaglen hon o hyfforddiant yn fewnol ac mae'n rhagflaenu sefydlu Rhaglen Hyfforddiant RTPI Gorllewin Cymru. Rhaglen ar raddfa fach fu hon yn ystod y flwyddyn felly roedd APCAP wedi parhau i gynnal hyfforddiant ar gyfer ei staff cynllunio ei hun a gwahodd sefydliadau o'r tu allan i'r digwyddiadau hyfforddi lle bo hynny'n berthnasol.
- Trefnwyd sesiwn hyfforddi ar hawliau datblygu a ganiateir gan Awdurdod Priffyrdd yn dilyn argymhelliad gan yr Ombwdsmon y dylai cynllunwyr a swyddogion gorfodi fod yn fwy hyddysg yn y rhan hon o'r hawliau datblygu a ganiateir. Hefyd cynigiwyd y sesiwn hon i'r Aelodau.
- Mae APCAP ynghyd â Chyngor Sir Penfro wedi parhau i gynnal Fforwm Asiantau. Mae'r fforwm hon yn cyfarfod bob chwarter gyda'r bwriad nid yn unig o gyflwyno gwybodaeth i asiantau am faterion cynllunio sy'n ymwneud â'u gwaith yn Sir Benfro, ond hefyd mae'n gyfle i asiantau leisio'u barn am y modd y mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol yn gweithio i

gymryd eu hanghenion i ystyriaeth. Mae nifer dda o asiantau cynllunio lleol yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.

- Mae cydweithio yn rhan bwysig o ddiwylliant APCAP - ac mae hyn yn bennaf oherwydd bod yr Awdurdod yn fach. Mae gweithio ar y cyd yn ein galluogi i rannu arferion da, a hefyd yn gwneud yr Awdurdod yn fwy cydnerth.
- Mae gennym berthynas waith dda gyda'n hawdurdodau cyfagos, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a gyda Sir Benfro yn arbennig. Rydym yn defnyddio adnoddau CSP ar gyfer monitro trefniadau adran 106 a hefyd yn defnyddio eu tîm cyfreithiol o ran drafftio a defnyddio templedi ar gyfer cytundebau cyfreithiol cynllunio. Hefyd rydym yn prynu i mewn i'w wasanaeth ecoleg cynllunio - gan sicrhau dull cyson o weithredu ledled Sir Benfro gyfan o ran bioamrywiaeth sy'n cymryd dim sylw o ffiniau gweinyddol. Mae gan y ddau Awdurdod, Cyngor Sir Penfro ac APCAP, ddirprwyaeth o Cadw i ymdrin â rhai ceisiadau adeiladau rhestredig - mae'r cytundeb yn caniatáu i'r swyddogion proffesiynol weithio ar draws y ffiniau - eto er budd cysondeb a chydnertheddd.
- Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn eu Hadolygiad o Wasanaethau Cynllunio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol 2015 o'r enw 'Cyflawni Mwy â Llai' yn argymhell mwy o gydweithio rhwng y 3 APC. Mae llawer o'r gwaith hwn yn berthnasol i bob awdurdod cynllunio lleol ledled Cymru.
- O ran gweithredu'r argymhellion rydym yn ceisio darparu system effeithiol o reoli dogfennau, uwchraddio'r wybodaeth cynllunio sydd ar gael ar ein Gwefan, a hyrwyddo ymagwedd gyfeillgar o helpu cwsmeriaid yn ein cymorthfeydd cynllunio a gwasanaeth cyn ymgeisio. Byddwn yn parhau i gydweithio ag Adrannau Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a gwneud cyfraniadau i Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW) gan rannu gwaith arferion gorau.

9. APCAP - y STORI LEOL

- 9.1. Roedd yr adran monitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cynnig y dylid gwneud adolygiad llawn o'r Cynllun ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2014-2015. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo fel y bwriadwyd.
- 9.2. Mae Adroddiad Monitro Blyneddol y Cynllun Datblygu Lleol 2015-6 ar gael.
- 9.3. Mae'r Cynllun yn nodi 17 o ganlyniadau allweddol erbyn diwedd cyfnod y Cynllun (h.y. 2021) ac mae 37 o ddangosyddion yn cael eu grwpio o dan y canlyniadau hyn i brofi perfformiad y Cynllun.
- 9.4. Yn gryno, mae targedau ac amcanion y Cynllun yn cael eu gwireddu. Mae yna broblemau gyda 6. Mae'r materion allweddol yn ymwneud â chael cyflenwad o dir ar gyfer codi tai; tir cyflogaeth yn cael ei gynnig gerbron, a darparu tai fforddiadwy.
- 9.5. Mae'r broses ceisiadau cynllunio yn dod yn fwyfwy cymhleth, a gwelwyd bod y drefn o gael swyddog ar ddyletswydd lle gall darpar ymgeiswyr archebu slot hanner awr gyda chynllunydd i fynd drwy'r broses gynllunio a'r wybodaeth sydd angen ei chyflwyno gyda'u cais, yn profi'n boblogaidd eleni. Ar hyn o bryd nid oes tâl am y gwasanaeth hwn, a digon posibl bod codi tâl am y gwasanaeth cyn cyflwyno cais wedi disodli ymholiadau i'r swyddog ar ddyletswydd.

Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro. Yn amlwg ddigon, mae angen cael cydbwysedd rhwng bod o gymorth a chodi tâl am gyngor.

9.6. Prosiectau cyfredol

- Datblygu Asesiad Ynni Adnewyddadwy a Gwybodaeth Darged ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Arfordir Penfro 2008 - Diweddariad ar y gweill.
- Asesiad o Gapasiti Tirwedd Carafanau, Gwersylla a Bythynnod – wedi'i gwblhau.
- Gwaith ar safleoedd ymgeisiol.
- Diweddariad ar yr Asesiad o'r Mannau Agored ar gyfer Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

9.7. Pwysau lleol

- Ceisiadau amaethyddol ar raddfa fawr.
- Arolwg o'r safleoedd carafanau, ymchwilio, a chamau gorfodi yn awr o ganlyniad i'r ymchwilio, fel y bo angen.

9.8. Gwella'r gwasanaeth

Gweithio tuag at yr amcanion corfforaethol:

1 – Bod tirwedd, amgylchedd a diwylliant y Parc Cenedlaethol yn cael eu gwarchod ar gyfer y genhedlaeth bresennol a'r cenedlaethau sydd i ddod.
2 – Bod y trigolion ac ymwelwyr o ystod eang o gefndiroedd yn mwynhau, yn gwerthfawrogi ac yn deall y Parc Cenedlaethol.
3 – Bod gwaith yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol a lles y trigolion a'r ymwelwyr i'r Parc Cenedlaethol.
4 - Bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cael ei gydnabod fel un sy'n bodloni'r safonau arferion da o ran llywodraethu, gan roi gwerth am arian ac yn gwrandao ar farn y trigolion, ymwelwyr a'r partneriaid.

9.9. Roedd y timau cynllunio yn Rheoli Datblygu ac yn Polisiâu Cynllunio yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau, effeithlonrwydd a chanfyddiad y cyhoedd fel y materion oedd yn llywio'u rhaglenni gwaith. O fewn Rheoli Datblygu y targedau allweddol oedd:

1. Penderfynu ar geisiadau cynllunio yn fwy cyflym i gyfartaledd o 70% o geisiadau gan ddeiliaid tai o fewn 8 wythnos a 65% o bob cais arall gan gynnwys ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig.
2. Cyflymu'r amseroedd ymateb o roi cyngor cyn ymgeisio i 65% o fewn 30 diwrnod.
3. Penderfynu ar gwynion gorfodi yn fwy cyflym i gyfartaledd o 65% o fewn 12 wythnos.
4. Sefydlu system ffurfiol o fonitro achosion gorfodaeth.
5. Cofrestru ceisiadau am ryddhau amodau ar APAS.
6. Cynnal cynllun peilot yn Nhyddewi ar newidiadau i Ddatblygiadau a Ganiateir ac effaith hynny ar yr Ardal Gadwraeth, gyda golwg ar gyflwyno cyfarwyddiadau

Erthygl 4 mewn ardaloedd sensitif.
7. Paratoi diagram llif (neu debyg) o ran mapio amlinelliad sylfaenol o'r prosesau gweinyddu, ceisiadau a gorfodaeth sy'n cwmpasu pob un o'r gweithdrefnau manwl.
8. Dechrau ar y gwaith o wella canfyddiad y cyhoedd o'r gwasanaeth cynllunio drwy ymgysylltu mwy â'r gymuned.
9. Sefydlu'r prosiect rheoli dogfennau.
10. Adolygu'r prosesau cyn-ymgeisio a'r prosesau cymorthfeydd cynllunio.

Mae ffigyrau perfformiad APCAP yn siarad drostynt eu hunain yn y tablau ar ddiwedd y ddogfen hon. Mae hyn wedi bod gyda chymorth ymgynghorwyr i lenwi bylchau yn y swydd Rheolwr Rheoli Datblygu. Mae'r camau tuag at sefydlu System Rheoli Dogfennau wedi bod yn araf ond yn drylwyr gyda'r ddau Barc Cenedlaethol arall yn ystyried y posibilïadau o alinio systemau yn y tymor hwy.

- 9.10. **Cyflenwad Tir ar gyfer Tai:** Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddangos bod cyflenwad tir ar gyfer tai ar gael yn effeithiol dros gyfnod o bum mlynedd.
- 9.11. Mae Astudiaeth yn 2015 yn dangos bod cyflenwad tir ar gyfer tai ar gael yn effeithiol dros 1.8 o flynyddoedd. Daeth astudiaeth yn 2014 i'r casgliad bod gan y Parc Cenedlaethol gyflenwad tir am 2.66 mlynedd. Mae'r adroddiad yn defnyddio'r dull gweddilliol i gyfrif y cyflenwad tir. Daeth astudiaeth 2013 i'r casgliad bod gan y Parc Cenedlaethol gyflenwad tir am 2.96 o flynyddoedd oedd wedi gostwng o 3.5 y flwyddyn flaenorol a 3.8 yn 2011.
- 9.12. Mae'r gostyngiad parhaus yn y cyflenwad tir i'w briodoli i amrywiaeth o ffactorau, a'r mwyaf cyffredin yw diffyg diddordeb gan dirfeddianwyr mewn dymuno datblygu eu tir yn y tymor byr a chanolig. Mae diddordeb mewn datblygu safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf gyda nifer o ymholiadau cyn ymgeisio a cheisiadau cynllunio wedi'u gwneud i'r Awdurdod. Nid yw hyn wedi bod yn ddigon, fodd bynnag, i gwrdd â'r prinder cynyddol o safleoedd oedd yn dod ymlaen yn ystod ychydig flynyddoedd cyntaf y Cynllun a fabwysiadwyd, ac mae bellach yn fater i'w ystyried yn yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 9.13. Er mwyn helpu i ddod â safleoedd ymlaen, mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau â'r camau canlynol:
- Cymeradwyo ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau tai cyn belled â bod pob polisi perthnasol yn cael eu bodloni. Mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau a gyflwynwyd i'r Awdurdod yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod ar safleoedd bach nad ydynt wedi eu rhestru yn y cyflenwad tir. Mae ymweliadau safle a gynhaliwyd yn 2014 a dechrau Ebrill 2015 yn parhau i ddangos cynnydd yn lefel y gweithgarwch ar safleoedd bach ac ar rai o'r safleoedd mwy fydd yn cael eu cofnodi yn yr astudiaeth o'r Tir sydd ar Gael yn 2016.
 - Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol a ddiweddarwyd ar Dai Fforddiadwy a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod fis Tachwedd 2014 wedi ail edrych ar yr asesiadau hyfywedd ar gyfer safleoedd sy'n cael eu neilltuo. Hefyd mae'r Awdurdod wedi symleiddio'r broses ar gyfer ymgeiswyr, gan bwysleisio bod y gofynion yn sail ar gyfer cyd-drafod. Bu cynnydd

yn nifer tirfeddianwyr y safleoedd a neilltuwyd a gysylltodd â'r Awdurdod gyda golwg ar ddod â safleoedd ymlaen ar gyfer eu datblygu ers mabwysiadu'r canllawiau.

- c) Mae'r Awdurdod wedi parhau i drafod gyda pherchnogion llawer o'r tir a neilltuwyd yn y Parc. Mae nifer o'r tirfeddianwyr yn gwneud gwaith paratoadol i ddechrau dod â safleoedd ymlaen ar gyfer eu datblygu, a bydd hyn yn cael ei amlygu yn yr Astudiaeth o'r Tir sydd ar Gael yn 2015.
- d) Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r safleoedd a neilltuwyd drwy'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol i fynd i'r afael â'r diffyg yn y tir sydd ar gael yn effeithiol.

9.14 Casgliad: Ar gyfer adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol bydd hyn yn golygu edrych eto ar ofynion cyffredinol tir ar gyfer tai, ac o ganlyniad y ddarpariaeth tai yn y Cynllun, a chydabod yr ansicrwydd yn y farchnad dai wrth bennu targedau blynyddol.

10. BETH YW BARN Y RHAI SY’N DEFNYDDIO’R GWASANAETH

Yn 2015-16 cynhaliodd yr Awdurdod arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid gyda’r nod o asesu barn pobl oedd wedi derbyn penderfyniad ar gais cynllunio yn ystod y flwyddyn.

Anfonwyd yr arolwg at 68 o bobl, a derbyniwyd ymateb cyflawn neu rannol oddi wrth 38% ohonynt. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion (50%) oddi wrth aelodau'r cyhoedd. Roedd 8% o'r ymatebwyr wedi cael eu cais cynllunio diweddaraf wedi'i wrthod.

Gofynnwyd i’r ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am y gwasanaeth cynllunio. Cawsant yr opsiynau ateb canlynol:

- Cytuno'n gryf;
- Tueddu i gytuno;
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno;
- Tueddu i anghytuno; ac
- Anghytuno'n gryf


Mae Tabl 1 yn dangos y ganran o ymatebwyr a ddewisodd naill ai 'tueddu i gytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' ar bob datganiad am ein hawdurdod cynllunio a Chymru.

Tabl 1: Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno â phob datganiad, 2015-16

Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno:	%	
	ACLI Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Cymru
Bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gorfodi ei reolau cynllunio yn deg ac yn gyson	54	47
Bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus	70	58
Bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi cymorth drwy gydol y broses, gan gynnwys gydag amodau	63	49
Ymatebodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn brydlon pan ofynnwyd cwestiynau iddynt	78	58
Gwrandawyd arnynt pan oedd ganddynt ymholiadau am eu cais	63	57
Roeddent yn cael gwybod am hysbys eu cais	63	49
Roeddent yn fodlon ar y cyfan â'r modd yr oedd yr ACLI wedi ymdrin â'u cais	60	61

Hefyd gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis tair nodwedd gwasanaeth cynllunio o restr y barnent fyddai o gymorth mwyaf iddynt lwyddo i gyflawni datblygiadau llwyddiannus. Mae Ffigur 1 yn dangos pa mor aml y dewiswyd pob nodwedd fel canran o gyfanswm y dewisiadau. I ni, 'y cyfle i siarad â chynllunydd ar ddyletswydd cyn cyflwyno cais' oedd y dewis mwyaf poblogaidd.

Ffigur 1: Nodweddion gwasanaeth cynllunio da, ACLI Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, 2015-16



Ffynhonnell: Uned Ddata - Cymru

Ymhlith y sylwadau a dderbyniwyd oedd:

- “Er bod fy mhrofiad personol i o wneud cais wedi bod yn dda, byddai wedi bod yn galonogol iawn i allu trafod y cais yn fanwl gyda swyddog cynllunio, yn ystod y camau cynnar. Byddai'n ddefnyddiol iawn cael cyfarfod cyn cyflwyno'r cais ffurfiol i ddatrys unrhyw ymholiadau, ar y ddwy ochr.”
- “Daliwch ati i gynnal y safon.”
- “Roedd y swyddog achos o gymorth mawr, yn llawn gwybodaeth ac yn ddiduedd. Roedd wedi rhoi cyngor synhwyrol mewn modd cyfeillgar, ac ymdriniodd â'r gwrthwynebiadau yn wrthrychol.”

EIN PERFFORMIAD 2015-16

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am ein perfformiad yn 2015-16. Mae'n ystyried y dangosyddion Fframwaith Perfformiad Cynllunio a data arall sydd ar gael i helpu i beintio darlun cynhwysfawr o'r perfformiad. Lle bo'n briodol rydym yn gwneud cymariaethau rhwng ein perfformiad ni a pherfformiad Cymru gyfan.

Caiff perfformiad ei dadansoddi ar draws y pum agwedd allweddol o ddarparu gwasanaeth cynllunio fel y nodir yn y Fframwaith Perfformiad Cynllunio:

- Llundio Cynllun;
- Effeithlonrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltu; a
- Gorfodi

Llundio cynllun


Ar 31 Mawrth 2016, roeddem yn un o 22 o awdurdodau cynllunio lleol oedd â chynllun datblygu cyfredol yn ei le. (Mae'n ofynnol i ni gyflwyno Adroddiad Monitro Blyneddol fis Hydref 2016. Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi a'i chyflwyno).

Yn ystod cyfnod yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol, roedd gennym 1.8 mlynedd o gyflenwad tir wedi'i glustnodi ar gyfer tai, gan ein gwneud yn un o 17 o Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru heb y cyflenwad o 5 mlynedd sy'n ofynnol.

Effeithlonrwydd

Yn 2015-16 gwnaed penderfyniad ar 525 o geisiadau cynllunio, a phob un, ar gyfartaledd, yn cymryd 61 diwrnod (9 wythnos) i'w penderfynu. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 77 diwrnod (11 wythnos) ar draws Cymru gyfan. Mae Ffigur 2 yn dangos yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd gan bob ACLI i benderfynu ar gais yn ystod y flwyddyn.


Ffigur 2: Amser cyfartalog a gymerwyd (diwrnodau) i benderfynu ar geisiadau, 2015-16



Roedd 72% o'r holl geisiadau cynllunio wedi cael eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd hyn yn cymharu â 77% ar draws Cymru gyfan, ac roedd yn is na'r targed o 80%. Dim ond 8 allan o'r 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol lwyddodd i gyrraedd y targed o 80%.

Mae Ffigur 3 yn dangos y canran o geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol ar draws y pedwar prif fath o geisiadau ar gyfer ein ACLI ni a Chymru. Mae'n dangos ein bod wedi penderfynu 83% o geisiadau gan ddeiliaid tai o fewn yr amserlenni gofynnol.


Ffigur 3: Canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol, yn ôl math, 2015-16



Ffynhonnell: Uned Ddata - Cymru

Rhwng 2014-15 a 2015-16, fel y dengys Ffigur 4, mae canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd gennym o fewn yr amserlenni gofynnol wedi gostwng o 86%. Gwelodd Cymru gynnydd eleni.

Ffigur 4: Canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol



Ffynhonnell: Uned Ddata - Cymru

Dros yr un cyfnod:


- Bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau a ddaeth i law;
- Bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau a benderfynwyd gennym; a
- Bu gostyngiad yn nifer y ceisiadau a gymeradwywyd gennym.

Yn ystod y flwyddyn roeddem heb reolwr Rheoli Datblygu, a byddai bod heb ddeiliad y swydd allweddol hon yn ddi-os wedi cael effaith ar y broses o wneud penderfyniadau. Cafodd y swydd hon ei llenwi yn rhannol gan ymgyngorydd ynghyd â bod y Cyfarwyddwr Cynllunio wedi ymgymryd â rhai o'r tasgau a wneir fel arfer gan ddeiliad y swydd hon.

Ceisiadau ar raddfa fawr

Penderfynwyd ar 9 cais cynllunio mawr yn 2015-16, nad oedd yr un ohonynt yn destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Cymerodd pob cais, ar gyfartaledd, 204 diwrnod (29 wythnos) i'w penderfynu. Fel y dengys Ffigur 5, roedd hyn yn fyrrach na chyfartaledd Cymru o 213 diwrnod (30 wythnos).


Ffigur 5: Amser cyfartalog (diwrnodau) a gymerwyd i benderfynu ar gais mawr, 2015-16



Cafodd 11% o'r ceisiadau mawr hyn eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol, sef y trydydd canran isaf o'r holl awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru.

Dengys Ffigur 6 y canran o geisiadau mawr a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol yn ôl y math o gais mawr. Cafodd 11% o'n ceisiadau mawr 'safonol', h.y. y rhai nad oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar eu cyfer, eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol yn ystod y flwyddyn.

Ffigur 6: Canran y ceisiadau mawr a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol yn ystod y flwyddyn, yn ôl math, 2015-16




Ffynhonnell: Uned Ddata - Cymru

Ers 2014-15 mae canran y ceisiadau mawr a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol wedi gostwng o 22%. Mewn cyferbyniad, roedd nifer y ceisiadau mawr a benderfynwyd wedi aros yr un fath, yn yr un modd â nifer y ceisiadau oedd yn amodol ar Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn.

Dengys Ffigur 7 y duedd o ran canran y ceisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol yn y blynyddoedd diwethaf, a sut mae hyn yn cymharu â Chymru gyfan.

Ffigur 7: Canran y ceisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol



Ffynhonnell: Uned Ddata - Cymru

Dros yr un cyfnod:

- Roedd canran y ceisiadau bach a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol wedi gostwng o 87% i 74%;

- Roedd canran y ceisiadau gan ddeiliaid tai a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol wedi gostwng o 94% i 83%; ac
- Roedd canran y ceisiadau eraill a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol wedi gostwng o 86% i 83%.


Ansawdd

Yn 2015-16, gwnaeth ein Pwyllgor Cynllunio 44 o benderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ystod y flwyddyn, oedd yn cyfateb i 8% o'r holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd. Ar draws Cymru 7% o'r holl benderfyniadau cais cynllunio a wnaed gan bwyllgor cynllunio.

Roedd 5% o'r penderfyniadau hyn a wnaed gan yr aelodau yn groes i gyngor y swyddogion. Roedd hyn yn cymharu â 9% o'r penderfyniadau a wnaed gan yr aelodau ar draws Cymru. Roedd hyn yn cyfateb i 0.4% o'r holl benderfyniadau ar geisiadau cynllunio a wnaed yn groes i gyngor y swyddogion; 0.6% ar draws Cymru.

Yn 2015-16 cawsom 7 apêl yn erbyn ein penderfyniadau cynllunio, oedd yn cyfateb i 1.4 apêl am bob 100 o geisiadau a dderbyniwyd. Hwn oedd y gymhareb pumed isaf o apeliadau i geisiadau yng Nghymru. Dengys Ffigur 8 sut mae nifer yr apeliadau a dderbyniwyd wedi newid ers 2014-15 a sut mae hyn yn cymharu â Chymru.

Ffigur 8: Nifer yr apeliadau a dderbyniwyd am bob 100 o geisiadau cynllunio




Ffynhonnell: Uned Ddata - Cymru

Dros yr un cyfnod roedd canran y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd wedi gostwng o 95% i 94%.

O'r 3 apêl a benderfynwyd yn ystod y flwyddyn, roedd pob un o'r tair wedi'u gwrthod. Fel y dengys Ffigur 9, hwn oedd y ganran uchaf o apeliadau gafodd eu gwrthod yng Nghymru, a ni oedd un o'r 14 o awdurdodau cynllunio lleol oedd wedi cyrraedd y targed o 66%.

Ffigur 9: Canran yr apeliadau gafodd eu gwrthod, 2015-16



Yn ystod 2015-16 ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am gostau apêl adran 78 a gadarnhawyd.

Ymgysylltu

Ni yw:

- un o'r 24 o awdurdodau cynllunio lleol oedd yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio; ac
- un o 2 awdurdod cynllunio lleol oedd â chofrestr rhannol ar-lein o geisiadau cynllunio. Mae'r mynediad cyfyngedig hwn yn cael ei lesteirio i ryw raddau drwy fod yn ddibynnol ar yr Awdurdod cyfagos am ddarparu'r elfen hon o'r gwasanaeth, a byddai cyflwyno system rheoli dogfennau hefyd o fudd i gyfleuster ar-lein ehangach. Mae'r ddau fater hyn yn derbyn sylw ar hyn o bryd.

Fel y dengys Tabl 2, cytunodd 70% o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid yn 2015-16 bod yr ACLI yn rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus.

Tabl 2: Adborth o'n harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid 2015-16


Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno bod:	%	
	ACLI Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Cymru
Yr ACLI yn rhoi cyngor da i'w helpu i wneud cais llwyddiannus	70	58
Gwrandawyd ar eu cais	63	57

Gorfodaeth

Yn 2015-16 ymchwiliwyd i 55 o achosion gorfodaeth, oedd yn cyfateb i 2.4 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Roedd hyn yn cymharu â 1.9 o achosion gorfodaeth a ymchwiliwyd fesul 1,000 o'r boblogaeth ar draws Cymru. Cymerwyd, ar gyfartaledd, 130 o ddiwrnodau i ymchwilio i bob achos gorfodaeth.

Ymchwiliwyd i 78% o'r achosion gorfodi hyn o fewn 84 diwrnod. Ar draws Cymru cafodd 79% eu hymchwilio o fewn 84 diwrnod. Mae Ffigur 10 yn dangos canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod ar draws pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru. Mae ymchwilio i weithgareddau cefn gwlad, gan gynnwys y rheol '28' diwrnod, yn llawn anawsterau, ac mae canfod y budd all ddeillio o hyn, gan gynnwys y datblygu a ganiateir gan Awdurdod Prifffyrdd, yn faes yr ydym wedi'i glustnodi yn faes lle gallwn wella.


Ffigur 10: Canran yr achosion gorfodi a ymchwiliwyd o fewn 84 diwrnod, 2015-16



Dros yr un cyfnod, llwyddwyd i ddatrys 64 o achosion gorfodi, gan gymryd, ar gyfartaledd, 332 diwrnod i ddatrys pob achos.

Cafodd 73% o'r camau gorfodi hyn ei wneud o fewn 180 diwrnod o ddechrau'r achos. Fel y dengys Ffigur 11 roedd hyn o'i gymharu â 73% o achosion gorfodi gafodd eu datrys o fewn 180 diwrnod ar draws Cymru.

Ffigur 11: Canran yr achosion gorfodi gafodd eu datrys o fewn 180 diwrnod, 2015-16



ATODIAD A – FFRAMWAITH PERFFORMIAD

TROSOLWG

MESUR	DA	GWEDDO L	GWELLA
Llunio cynllun			
A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?	Oes		Na
Y gwyrriad, wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd	<12	13-17	18+
Adroddiadau Monitro Blynyddol a gynhyrchwyd yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	Do		Naddo
Cyflenwad tir ar gyfer tai yr awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd	>5		<5
Effeithlonrwydd			
Canran y ceisiadau "mawr" gafodd eu penderfynu o fewn y cyfnodau amser gofynnol	Heb ei bennu	Heb ei bennu	Heb ei bennu
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	Heb ei bennu	Heb ei bennu	Heb ei bennu
Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	>80	60.1-79.9	<60
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	<67	67-111	112+
Ansawdd			
Canran y penderfyniadau a wnaed gan yr Aelodau yn groes i gyngor swyddogion	<5	5.1-8.9	9+
Canran yr apeliadau gafodd eu gwrthod	>66	55.1-65.9	<55
Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 gafodd eu	0	1	2

CYFARTALED D CYMRU	ACLI Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Y LLYNEDD	ACLI Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ELENÍ
Oes	Oes	Oes
47	Amherthnasol	Amherthnasol
Do	Do	Do
3.9	2.7	1.8
35	22	11
213	129	204
77	86	72
77	54	61
9	6	5
66	77	100
0	0	0

MESUR	DA	GWEDDOL	GWELLA
cadarnhau yn y cyfnod adrodd			
Ymgysylltu			
A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	Ydy		Na
A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	Oes		Na
A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain camau'r ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	Oes	Rhannol	Na
Gorfodaeth			
Canran yr achosion gorfodi gafodd eu hymchwilio (i benderfynu a yw rheolau cynllunio wedi'u torri ac, os felly, penderfynu ai cymryd camau gorfodi neu beidio) o fewn 84 diwrnod.	Heb ei bennu	Heb ei bennu	Heb ei bennu
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi	Heb ei bennu	Heb ei bennu	Heb ei bennu
Canran yr achosion gorfodi lle cymerwyd camau gorfodi neu ganiatau cais ôl-weithredol o fewn 180 diwrnod o ddechrau'r achos (yn yr achosion hynny lle'r oedd mantais i orfodi)?	Heb ei bennu	Heb ei bennu	Heb ei bennu
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi	Heb ei bennu	Heb ei bennu	Heb ei bennu

CYFARTALEDD CYMRU	ACLI Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Y LLYNEDD	ACLI Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ELENÍ
Ydy	Ydy	Ydy
Oes	-	Oes
Oes	Rhannol	Rhannol
79	66	78
88	Dim Data	130
73	74	73
210	88.5	332

ADRAN 1 – LLUNIO CYNLLUN

Dangosydd	01. A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwella”
Mae cynllun datblygu yn ei le ac o fewn cyfnod y cynllun.	Amherthnasol	Nid oes cynllun datblygu yn ei le (gan gynnwys cynllun sydd wedi dod i ben)

Perfformiad yr Awdurdod	Oes
Oes, fel y soniwyd eisoes, ein cynllun lleol ni oedd y cyntaf yng Nghymru i gael ei fabwysiadu. Mae'r cynllun yn dal i fod yn gyfredol ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar lunio cynllun newydd yn ei le.	

Dangosydd	02. Y gwyrriad, wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, mewn misoedd.	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwella”
Mae'r CDLI yn cael ei ddatblygu o fewn 12 mis i'r dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol.	Mae'r CDLI yn cael ei ddatblygu o fewn rhwng 12 a 18 mis i'r dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol.	Mae'r CDLI yn cael ei ddatblygu mwy na 18 mis yn hwyrach na'r dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol.

Perfformiad yr Awdurdod	Amherthnasol
Mae'r cynllun wedi'i fabwysiadu, ac wedi'i brosesu o fewn y cytundeb cyflawni ac nid oedd unrhyw wryriad oddi wrth y cytundeb. Rydym ar y trywydd iawn i wneud yr un peth gyda'n cynllun datblygu lleol newydd.	

Dangosydd	03. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	
“Da”		“Angen gwella”
Mae'n amser cyflwyno AMB ac mae un wedi'i baratoi.		Mae'n amser cyflwyno AMB, ac nid oes un wedi'i baratoi.

Perfformiad yr Awdurdod	Oes
Oes, unwaith eto rydym yn gyson wedi darparu Adroddiad Monitro Blynyddol o fewn yr amserlenni gofynnol. Cyflwynwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol gerbron cyfarfodydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Medi 2015 a 2016 a chymeradwywyd y ddau i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru, gweler isod: Adroddiadau APC: http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Committee/NPA/2015/23_09_15/49_15%20LD%20Annual%20Monitoring%20Report.pdf	

Cofnod APC:

PENDERFYNWYD bod Adroddiad Monitro Blynyddol 2014-15 ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2015.

http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Committee/NPA/2016/September%2028/49_16%20LDP%20Monitoring%20Report.pdf

Cofnod APC:

PENDERFYNWYD bod Adroddiad Monitro Blynyddol 2015-16 ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2016.

Dangosydd	04. Cyflenwad tir yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer tai ar hyn o bryd mewn blynyddoedd	
"Da"		"Angen gwella"
Mae gan yr awdurdod fwy na 5 mlynedd o gyflenwad o dir ar gyfer tai		Mae gan yr awdurdod llai na 5 mlynedd o gyflenwad o dir ar gyfer tai

Perfformiad yr Awdurdod	1.8
<p>Mae'r gostyngiad parhaus yn y cyflenwad tir i'w briodoli i nifer o ffactorau, a'r mwyaf cyffredin ohonynt yw diffyg diddordeb gan dirfeddianwyr i ddatblygu eu tir yn y tymor byr a'r tymor canolog. Mae diddordeb mewn datblygu safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar, pan fu cynnydd yn nifer yr ymholiadau cyn-ymgeisio a cheisiadau cynllunio a wnaed i'r Awdurdod. Nid yw hyn wedi bod yn ddigon i wneud iawn am y prinder safleoedd a gyflwynwyd yn ystod blynyddoedd cyntaf y Cynllun, ac mae'n fater bellach i'w ystyried gan y gwaith o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Yn y cyfamser, er mwyn cynorthwyo i ddod â safleoedd ymlaen, mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau i gymeradwyo ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau tai cyn belled â bod pob polisi perthnasol yn cael eu bodloni. Mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau a gyflwynwyd i'r Awdurdod yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod ar safleoedd bach nad ydynt wedi'u rhestru yn y cyflenwad tir.</p> <p>Ar gyfer adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd hyn yn golygu edrych eto ar y gofynion cyffredinol o bennu tir ar gyfer tai, ac o ganlyniad y ddarpariaeth tai yn y Cynllun a chydabod yr ansicrwydd yn y farchnad dai wrth osod targedau blynyddol.</p>	

ADRAN 2 – EFFEITHLONRWYDD

Dangosydd	05. Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu penderfynu o fewn y cyfnodau amser gofynnol.	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwella”
Y targed i’w feincnodi	Y targed i’w feincnodi	Y targed i’w feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	11
<p>Yn achos yr Awdurdod hwn, ac unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol arall, yn mynegi’r dangosydd hwn fel canran yn unig, bydd hynny o bosibl, yn gamarweiniol gan y bydd nifer cymharol isel o geisiadau 'mawr' yn cael ei gyflwyno i’r cyfryw Awdurdodau. Yn ystod eleni dim ond 9 cais mawr gafodd eu penderfynu gan yr Awdurdod.</p> <p>Nid yw dynodiad statudol yn gwahardd datblygu, ond mae'n rhaid i gynigion am ddatblygu gael eu hasesu'n ofalus o ran eu heffaith ar y buddiannau treftadaeth naturiol hynny y bwriedir i'r dynodiad eu gwarchod. Mewn Parciau Cenedlaethol, mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol i gynigion datblygu mawr sy'n fwy cenedlaethol na lleol o ran cymeriad.</p> <p>Yr effaith ddifrifol bosibl y gallai datblygiad ei gael ar rinweddau’r Parc sy'n gymwys ar gyfer y teitl 'Datblygiad Mawr' ac, yn ogystal â’r angen i gydymffurfio â pholisïau’r Cynllun Datblygu Lleol, bydd rhaid i'r cynnig fodloni meini prawf polisïau cynllunio cenedlaethol cyn y caniateir y cynnig, a elwir yn 'Brawf Datblygiad Mawr'. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi’r union brawf o ran yr angen am y datblygiad, ymchwilio sut y gallai'r datblygiad gael ei ddiwallu mewn ffordd arall, a’r modd y mae'n effeithio ar yr amgylchedd a'r dirwedd.</p> <p>Mae'r Datganiad Polisi ar gyfer y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru "Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru" (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002) yn ailadrodd na ddylai datblygiadau mawr ddigwydd o fewn Parc Cenedlaethol oni bai bod amgylchiadau eithriadol.</p>	

Dangosydd	06. Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau.	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwella”
Y targed i’w feincnodi	Y targed i’w feincnodi	Y targed i’w feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	204 o ddiwrnodau
<p>Nid yw'r targed hwn wedi cael ei feincnodi. Fodd bynnag, mae nifer y diwrnodau ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar gais mawr yn is na chyfartaledd Cymru o 213 diwrnod.</p>	

Dangosydd	07. Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Mae mwy na 80% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol.	Mae rhwng 60% a 80% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol.	Mae llai na 60% o geisiadau yn cael eu penderfynu o fewn y cyfnod amser statudol

Perfformiad yr Awdurdod	72%
Roedd perfformiad yr Awdurdod yn y categori "Gweddol". Mae canran y ceisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnod amser statudol i'w briodoli yn rhannol i'r ffaith bod yr adran Rheoli Datblygu wedi bod heb reolwr am rhyw 5 mis o'r cyfnod adrodd. Penodwyd Arweinydd Tîm fis Gorffennaf 2016, a rhagwelir y bydd y perfformiad yn gwella.	

Dangosydd	08. Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Llai na 67 diwrnod	Rhwng 67 a 111 diwrnod	112 diwrnod neu fwy

Perfformiad yr Awdurdod	61
Mae'r Awdurdod wedi cyrraedd y targed o llai na 67 diwrnod i benderfynu ar yr holl geisiadau, gyda chyfartaledd o 61 diwrnod i benderfynu ar bob cais. Er bod hyn ychydig yn fwy nag amser cyfartalog y llynedd, mae perfformiad yr Awdurdod yn cymharu'n eithriadol o dda yn erbyn Cyfartaledd Cymru o 77 diwrnod.	

ADRAN 3 - ANSAWDD

Dangosydd	09. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwella”
Llai na 5% o benderfyniadau	Rhwng 5% a 9% o benderfyniadau	9% neu fwy o benderfyniadau

Perfformiad yr Awdurdod	5%
<p>Mae Aelodau APCAP yn cymryd eu swyddogaeth gynllunio o ddifrif, ac maent yn wybodus ac yn ymwneud â'r broses gynllunio. Mae'r swyddogion yn trefnu ymweliadau safle ar geisiadau cymhleth neu geisiadau mawr cyn i'r mater gael ei ystyried yn llawn gan y pwyllgor. Mae hyn yn gymorth i gyflwyno gwybodaeth i'r aelodau cyn gwneud penderfyniadau – gall unrhyw faterion sydd angen eglurhad gael eu hegluro a'u datrys y cyfle cynnar hwn. Mae'r ymgeiswyr hefyd yn gwerthfawrogi'r drefn hon.</p>	

Dangosydd	10. Canran yr apeliadau gafodd eu gwrthod	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwella”
Mwy na 66% (dwy rhan o dair) o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl	Rhwng 55% a 66% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl	Llai na 55% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl

Perfformiad yr Awdurdod	100%
<p>Mae'r Awdurdod wedi llwyddo i amddiffyn apeliadau gyda chyfradd llwyddiant o 100% sydd yn sylweddol uwch na'r targed o 66%. Mae perfformiad yr Awdurdod yn cymharu'n eithriadol o dda yn erbyn Cyfartaledd Cymru o 66%</p>	

Dangosydd	11. Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwella”
Nid yw'r awdurdod wedi gorfod talu costau unrhyw apêl yn ei erbyn	Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau un apêl yn ei erbyn	Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau dwy apêl neu fwy yn ei erbyn

Perfformiad yr Awdurdod	0
<p>Nid yw'r Awdurdod wedi gorfod talu unrhyw gostau apêl yn ei erbyn yn ystod y flwyddyn adrodd. Fodd bynnag, roedd yr Awdurdod yn llwyddiannus yn ei hawliad yn erbyn ymgeisydd yn achos adolygiad barnwrol a ollyngwyd.</p>	

ADRAN 4 – YMGYSYLLTU

Dangosydd	12. A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	
"Da"		"Angen gwella"
Mae aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio.		Nid yw aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio.

Perfformiad yr Awdurdod	Ydy
<p>Mae gan yr Awdurdod bolisi clir a gweithdrefn wedi'i dogfennu'n dda ar gyfer siarad yng nghyfarfodydd y pwyllgor Rheoli Datblygu, gyda siaradwyr yn cael eu caniatáu i annerch y pwyllgor am 5 munud man mwyaf. Mae manylion y trefniadau siarad yn gyhoeddus wedi'u nodi ar y wefan:</p> <p>http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=307</p>	

Dangosydd	13. A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	
"Da"		"Angen gwella"
Gall aelodau'r cyhoedd ofyn am gyngor gan swyddog cynllunio ar ddyletswydd.		Nid oes swyddog cynllunio ar gael ar ddyletswydd.

Perfformiad yr Awdurdod	Oes
<p>Mae gan yr Awdurdod gymhorthfa cynllunio wythnosol sy'n gweithredu ar apwyntiadau o hanner awr. Mae'r gymhorthfa yn hynod boblogaidd ac yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r gymhorthfa wythnosol yn gyson lawn. Serch hynny, gall y cyhoedd wneud apwyntiad cyn pen 7 diwrnod fel arfer o wneud cais, ac felly, ni ystyrir ar hyn o bryd bod angen ehangu'r gwasanaeth, er y bydd hyn yn cael ei adolygu. Mae'r gwasanaeth hwn yn arbennig o werthfawr i aelodau o'r cyhoedd sydd heb asiant ac sy'n prosesu eu ceisiadau eu hunain am ganiatâd codi neu addasu tŷ a heb unrhyw wybodaeth flaenorol am y system gynllunio. Nid yw ceisiadau cyn ymgeisio, gorfodaeth nac ymholiadau am geisiadau cynllunio sy'n ymwneud ag achosion sydd eisoes wedi'u neilltuo i swyddog achos, yn rhan o gylch gwaith cymhorthfa gynllunio, ac mae'r cais am gyfarfodydd yn cael eu trefnu yn ôl y gofyn.</p>	

Dangosydd	14. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain camau'r ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Mae pob dogfen ar gael ar-lein	Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar-lein, a rhaid ceisio cael mynediad i	Ni chyhoeddir gwybodaeth am geisiadau cynllunio ar-lein

	ddogfennau eraill yn uniongyrchol.	
--	------------------------------------	--

Perfformiad yr Awdurdod	Rhannol
<p>Mae gan yr Awdurdod y cyfleuster ar-lein lle gall manylion y cais, gan gynnwys disgrifiad, swyddog achos, penderfyniad a manylion eraill, gael eu gweld ar-lein. Hefyd mae'r gallu ar gael i chwilio yn ofodol am gais drwy ddefnyddio system sy'n seiliedig ar fapiau. Mae adroddiad y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar gael ar-lein ac yn cynnwys delweddau o'r cynlluniau perthnasol ar gyfer pob cais sy'n cael ei ystyried. Mae'r system yn gyfyngedig yn yr ystyr nad yw'r dogfennau sy'n ategu cais ar gael i'w gweld ar-lein. Ar geisiadau mawr mae'r Awdurdod yn lanlwytho cynlluniau a dogfennau allweddol y cais i'r wefan. Mae'r Awdurdod yn ceisio mynd i'r afael â'r cyfyngiad hwn ac wedi cymryd camau i symud y mater ymlaen, ac mae system a ffefrir wedi cael ei chlustnodi. Mae cyllideb wedi'i neilltuo i ddarparu'r cyfleuster hwn, a chydabyddir bod y cyfleuster yn hynod ddefnyddiol i'r cyhoedd yn gyffredinol, yr ymgeisydd, asiant, partion eraill sydd â budd, ac i'r Awdurdod.</p>	

ADRAN 5 – GORFODI

Dangosydd	15. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (i benderfynu a yw rheolaeth gynllunio wedi'i thorri, ac os ydyw, penderfynu a fydd mantais mewn cymryd camau gorfodi) o fewn 84 diwrnod.	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwella”
Y targed i'w feincnodi	Y targed i'w feincnodi	Y targed i'w feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	78%
<p>Nid yw'r targed hwn wedi'i feincnodi. Serch hynny mae canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 78 diwrnod yn debyg i gyfartaledd Cymru o 77%.</p>	

Dangosydd	16. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi.	
“Da”	“Gweddol”	“Angen gwella”
Y targed i'w feincnodi	Y targed i'w feincnodi	Y targed i'w feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	130 o ddiwrnodau
<p>Mae'r amser ar gyfartaledd a gymerwyd i'r Awdurdod ymchwilio i achosion gorfodaeth yn uwch nag amser cyfartalog Cymru, yn rhannol oherwydd y ffaith bod yr adran Rheoli Datblygu wedi bod heb reolwr am gyfnod o rhyw 5 mis o'r cyfnod adrodd.</p>	

Dangosydd	17. Canran yr achosion gorfodi lle cymerwyd camau gorfodi neu
------------------	--

	Ile caniatwyd cais ôl-weithredol o fewn 180 o ddiwrnodau ar ôl dechrau'r achos (yn yr achosion lle'r oedd mantais mewn cymryd camau gorfodi).	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Y targed i'w feincnodi	Y targed i'w feincnodi	Y targed i'w feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	73%
Nid yw'r targed hwn wedi'i feincnodi. Fodd bynnag, mae canran yr achosion lle cymerwyd camau gorfodi neu y caniatwyd cais ôl-weithredol o fewn 180 diwrnod o'r dyddiad cychwyn, sydd yn unol â chyfartaledd Cymru o 73 %.	

Dangosydd	18. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi	
"Da"	"Gweddol"	"Angen gwella"
Y targed i'w feincnodi	Y targed i'w feincnodi	Y targed i'w feincnodi

Perfformiad yr Awdurdod	332
<p>Roedd yr amser a gymerodd yr Awdurdod ar gyfartaledd i gymryd camau gorfodi yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn fwy na'r llynedd oherwydd yr amser a gymerwyd i gyflwyno a phenderfynu ar geisiadau cynllunio dilynol a nifer yr achosion gorfodi a aeth i apêl. Symudodd un o'r swyddogion gorfodi profiadol i swydd arall i ddod yn swyddog cynllunio, ac o'r herwydd roedd swydd gorfodi yn wag am beth amser. Roedd gofyn i'r swyddog gorfodi newydd felly ymgyfarwyddo â'r systemau a'r llwyth gwaith.</p> <p>Mae'r APCAP wedi ymrwmo i sicrhau bod nodweddion arbennig tirwedd y Parc Cenedlaethol yn cael eu cynnal a'u parchu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.</p> <p>Mae swyddogion yr Awdurdod yn rhan o'r grŵp sy'n adolygu'r dangosyddion perfformiad gorfodi.</p>	

ADRAN 6 – DANGOSYDDION YNGHYLCH DATBLYGU CYNALIADWY

Diben y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yw mesur y cyfraniad y mae'r system gynllunio yn ei wneud i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Bydd y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn cael eu defnyddio i fesur y camau a gymerwyd yn erbyn amcanion cynaliadwyedd cynllunio cenedlaethol, a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gellir eu defnyddio i ddangos i'n rhanddeiliaid rôl a chwmpas y system gynllunio o ran cyflawni amcanion ehangach. Hefyd bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol i awdurdodau cynllunio lleol ddeall mwy am ganlyniadau'r system gynllunio a helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

Dangosydd	SD1. Yr arwynebedd llawr (metrau sgwâr) ar gyfer datblygiad economaidd newydd y rhoddwyd neu y gwrthodwyd caniatâd ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn.
------------------	---

Caniatawyd (metrau sgwâr)	
Data'r Awdurdod	0

Gwrthodwyd (metrau sgwâr)	
Data'r Awdurdod	0

Defnydd tir ar gyfer Cyflogaeth/Defnydd Cymysg (heb gynnwys tai ar gyfer y farchnad): Y targed oedd cael caniatâd cynllunio ar 33% o'r tir a ddyrannwyd erbyn cyfnod adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol (diwedd blwyddyn ariannol 2014/15). Ni lwyddwyd i gyflawni hyn. Mae 3 safle wedi'u dyrannu, ac nid oes camau pellach wedi'u cymryd. Ymhlith y rhesymau am hyn yw diffyg diddordeb gan y tirlfeddiannwr, diffyg diddordeb gan y datblygwr a'r materion ynghylch hyfywedd o ddod â safleoedd cyflogaeth ymlaen lle mae diffyg cyllid cyhoeddus. Bydd y safleoedd hyn yn cael eu hailystyried fel rhan o'r broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Dangosydd	SD2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Caniatawyd (nifer y ceisiadau)	
Data'r Awdurdod	Caniatawyd 16, gwrthodwyd un (17)

Caniatawyd (yr ynni MW a gynhyrchwyd)	
Data'r Awdurdod	0.6MW

Petai pob un o'r ceisiadau a ganiatawyd ers 2006 yn weithredol, byddai hynny'n cynhyrchu rhyw 7.61 Gwh o drydan. Mae hyn yn gynydd o 4.03 Gwh o'r cyfnod monitro diwethaf (Ebrill 2014- Mawrth 2015). Mae'r cynigion yn bennaf ar gyfer tyrbinau gwynt a ffotofoltäig, er bod cymeradwyo Treulio Anaerobig 500 Kw wedi ychwanegu 3.9 GWh o botensial yn ystod y cyfnod monitro hwn; mae'r cynnydd sy'n weddill o 0.4 GWh yn deillio o systemau solar ffotofoltäig.

Mae'r gwres a gynhyrchir y flwyddyn yn rhyw 4.06 GWh yn bennaf o baneli solar thermol. Mae hyn yn gynydd o 0.355 GWh o'r cyfnod monitro blaenorol (Ebrill 2014 - Mawrth 2015). Mae 0.35 GWh o'r cynnydd hwn yn ganlyniad i gymeradwyo storio tanwydd i fwyleri biomas newydd. Mae'r 0.005 GWh sy'n weddill yn dod o baneli solar thermol. Er gwaethaf y cyfnod monitro hwn, ar y cyfan nid yw'r ceisiadau a ragwelwyd, megis ar gyfer bwyleri biomas mwy i ysgolion, wedi dod i law. Fodd bynnag mae fframwaith polisi cadarnhaol yn parhau i fod yn ei le.

Dangosydd	SD3. Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Tai'r farchnad agored (nifer yr unedau)	
Data'r Awdurdod	29

Tai fforddiadwy (nifer yr unedau)	
Data'r Awdurdod	7

Mae'r gallu i sicrhau tai fforddiadwy drwy ddarparu tai ar y farchnad wedi bod yn heriol. Mae prawf hyfywedd nifer o safleoedd wedi golygu dim tai fforddiadwy nac ail brawf yn ystod y datblygiad. Wedi dweud hynny mae'r ddarpariaeth gyffredinol o 30% yn fras yn unol â'n hamcangyfrif o'r ddarpariaeth tai fforddiadwy o gymryd i ystyriaeth y Canllawiau Cynllunio Ategol diwygiedig (2014) ar dai fforddiadwy.

Dangosydd	SD4. Nifer y ceisiadau am ganiatâd cynllunio i ddatblygu ar orlifdiroedd C1 a C2 a ganiatawyd ac a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) NAD OEDDENT yn bodloni'r holl feini prawf yn TAN 15 y RHODDWDYD caniatâd ar eu cyfer	
Data'r Awdurdod	0

Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) nad oeddent yn bodloni'r holl feini prawf yn TAN 15 NA RODDWDYD caniatâd ar eu cyfer ar sail risg llifogydd	
Data'r Awdurdod	0

Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) oedd yn BODLONI'R holl feini prawf yn TAN 15 y RHODDWDYD caniatâd ar eu cyfer	
Data'r Awdurdod	0

Mae pob cais yn yr ardaloedd a glustnodwyd gan Nodyn Cyngor Technegol 15 neu'r Cynllun Rheoli Traethlin fel rhai lle mae posibilrwydd o lifogydd wedi cael eu sgrinio gan Gyfoeth Naturiol Cymru (gynt gan Asiantaeth yr Amgylchedd). Nid oes unrhyw gynigion wedi'u caniatáu yn groes i Bolisi 34 y Cynllun.

Dangosydd	SD5. Arwynebedd y tir (ha) lle rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu newydd ar dir sydd eisoes wedi cael ei ddatblygu a thir maes glas yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Tir sydd eisoes wedi cael ei ddatblygu (hectarau)	
Data'r Awdurdod	1

Tir maes glas (hectarau)	
Data'r Awdurdod	2

Mae'r rhan fwyaf o'r tir maes glas y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd yn ymwneud yn uniongyrchol â datblygiadau amaethyddol.

Dangosydd	SD6. Arwynebedd y mannau agored cyhoeddus (ha) fyddai'n cael ei golli a'i ennill o ganlyniad i ddatblygu y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer yn ystod y chwarter blwyddyn.
------------------	---

Mannau agored a gollir (hectarau)	
Data'r Awdurdod	0

Mannau agored a enillir (hectarau)	
Data'r Awdurdod	0

Nid oedd unrhyw ddatblygiad a arweiniodd at golli man agored a glustnodwyd yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	SD7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) ar gyfer darparu seilwaith cymunedol y cytunwyd arnynt wrth roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu newydd yn ystod y flwyddyn.
------------------	--

Enillwyd drwy gytundebau Adran 106 (£)	
Data'r Awdurdod	£135,537.61 ond o gynnwys cyfraniadau ariannol tai fforddiadwy mae'r cyfanswm yn £319,139.61*

Enillwyd drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (£)	
Data'r Awdurdod	0

Mae'r cyfraniadau sy'n deillio o gytundebau adran 106 yn uwch na'r llynedd sy'n arwydd o'r gwelliant yn y farchnad dai a'r nifer o geisiadau cynllunio sy'n golygu bod rhwymedigaethau cynllunio yn ofynnol.

*

Cyfanswm y cyfraniadau a enillwyd drwy gytundebau Adran 106	Swm	Nodiadau
Tai fforddiadwy	£183,602.00	Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys dau gytundeb NP/14/0599 ac NP/15/0145 - sy'n cael eu cyfrif fesul metr sgwâr yr annedd
Trafnidiaeth	£73,000.00	
Addysg	£21,643.89	
Mannau Agored Cyhoeddus	£35,096.72	
Cymunedol	£5,797.00	
Cyfanswm a enillwyd	£319,139.61	

Cyfraniadau a dderbyniwyd	Swm	Nodiadau
Tai fforddiadwy	£44,435.00	Mae hyn yn cynnwys £10800.00 a dderbyniwyd o amod caniatâd cynllunio nid A106.
Mannau Agored Cyhoeddus	£5,691.36	
Cyfanswm a dderbyniwyd	£50,126.36	